| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Bwrdd pensiwn |
| **Dyddiad:** | 03/11/2025 |
| **Teitl:** | Cynllun Gwella Data |
| **Awdur:** | Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau |
| **Pwrpas:** | Er gwybodaeth a thrafodaeth |

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r Cynllun Gwella Data arfaethedig ar gyfer y gronfa bensiwn. Mae'n amlinellu amcanion allweddol, heriau data cyfredol, camau gweithredu wedi'u cynllunio, a chanlyniadau disgwyliedig. Y nod yw sicrhau bod y Bwrdd yn cael gwybod am y dull gweithredu ac yn gallu darparu adborth neu gymeradwyaeth lle bo hynny'n briodol.

## 2. Cefndir

Mae data cywir a chyflawn yn hanfodol i weinyddu'r cynllun pensiwn yn effeithiol, cydymffurfio â gofynion rheoleiddio, a darparu gwasanaethau aelodau o ansawdd uchel. Mae adolygiadau ac archwiliadau diweddar wedi nodi meysydd lle mae angen gwella ansawdd data, yn enwedig mewn perthynas â data cyffredin a chynllun-benodol.

## 3. Amcanion y Cynllun Gwella Data

- Gwella cywirdeb, cyflawnrwydd a phrydlondeb data aelodau
- Sicrhau cydymffurfiaeth â disgwyliadau'r Rheoleiddiwr Pensiynau
- Cefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol a rheoli risg
- Gwella profiad aelodau a lleihau gwallau gweinyddol
- Paratoi ar gyfer prosiectau yn y dyfodol fel y dashfwrdd pensiynau a phrisiad y gronfa

## 4. Argymhelliad

Gofynnir i'r Bwrdd:

- Nodi cynnwys y Cynllun Gwella Data
- Rhoi adborth ar y dull arfaethedig
- Cymeradwyo fframwaith gweithredu a monitro'r cynllun

**Cynllun Gwella Data**

## 1. Crynodeb Gweithredol

Mae data cywir a chyflawn yn hanfodol ar gyfer gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd yn effeithiol. Mae'n sicrhau bod aelodau'n derbyn eu buddion cywir yn brydlon, yn cefnogi cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol, ac yn hwyluso cyfathrebu clir â chyflogwyr ac aelodau.

Mae'r Cynllun Gwella Data hwn yn amlinellu dull strategol y Gronfa o nodi ac ymateb i faterion ansawdd data, gan ganolbwyntio ar wella data Cyffredin a data Penodol i'r Cynllun yn unol â safonau a osodwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau (yRP).

Ymhlith y blaenoriaethau allweddol mae glanhau cofnodion anghywir, gwella cyflwyniadau data gan gyflogwyr, ailgysylltu ag aelodau sydd wedi gohirio, a pharatoi ar gyfer y Rhaglen Dashfwrdd Pensiynau. Bydd cynnydd yn cael ei olrhain yn erbyn cerrig milltir a therfynau amser clir, gyda goruchwyliaeth gan y Bwrdd Pensiwn Lleol a'r Pwyllgor Pensiwn i sicrhau atebolrwydd.

Mae'r Gronfa wedi ymrwymo i gynnal safonau data uchel er mwyn cefnogi effeithlonrwydd hirdymor y cynllun, cydymffurfiaeth reoleiddiol, a hyder aelodau.

## 2. Cyflwyniad

Mae data cywir, cyflawn ac amserol yn sylfaen ar gyfer gweinyddu pensiwn yn effeithiol. Mae data o ansawdd uchel yn hanfodol nid yn unig ar gyfer bodloni gofynion rheoleiddiol ond hefyd ar gyfer darparu gwasanaethau dibynadwy i aelodau'r cynllun a chyflogwyr. Mae cynnal data rhagorol yn lleihau ymyriadau â llaw, yn lleihau'r risg o wallau, yn amddiffyn rhag twyll, ac yn meithrin ymddiriedaeth ymhlith yr holl randdeiliaid.

Mae'r Cynllun Gwella Data hwn yn manylu ar y mathau allweddol o ddata a gynhelir gan y Gronfa, yn amlygu pwysigrwydd cywirdeb data, ac yn amlinellu dull clir a strwythuredig o wella ansawdd data.

Mae cynnal safonau data uchel yn cefnogi:

- Taliad cywir ac amserol o fuddion aelodau.
- Cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol, gan gynnwys safonau'r Rheoleiddiwr Pensiynau a'r rhwymedi McCloud.
- Paratoad ar gyfer y Rhaglen Dashfwrdd Pensiynau, a fydd yn galluogi aelodau i weld eu holl hawliau pensiwn mewn un lle.
- Prisiad actiwaraidd manwl a chyfrifiadau cyllido.
- Meithrin a chynnal hyder gyda chyflogwyr ac aelodau.

Mae’r cynllun hwn yn cynrychioli ymrwymiad parhaus i ragoriaeth data a llywodraethu effeithiol o’r gronfa bensiwn, yn hytrach na ymarfer un-tro.

## 3. Amcanion

Amcanion gwella data’r Gronfa yw:

- Nodi a chywiro gwallau sy’n effeithio ar gofnodion aelodau yn rhagweithiol.
- Cyrraedd a chynnal cydymffurfiaeth lawn â gofynion cadw cofnodion y Rheoleiddiwr Pensiynau.
- Cefnogi gweithredu newidiadau rheoleiddiol, gan gynnwys rhwymedi McCloud a chysylltiad â’r Dashfwrdd Pensiynau.
- Meithrin diwylliant o wella data’n barhaus o fewn y Gronfa ac ymhlith pob cyflogwr.
- Gwella cywirdeb a gallu archwilio data drwy ailgynllunio prosesau a gwelliannau i systemau.

## 4. Mathau o Ddata a’u Pwysigrwydd

Mae data o ansawdd uchel ar draws y categorïau canlynol yn hanfodol ar gyfer gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd yn gywir:

- **Manylion Personol Aelodau:** Yn cynnwys enw, dyddiad geni, a rhif Yswiriant Gwladol. Mae data personol cywir yn atal cofnodion dyblyg, yn sicrhau adnabod cywir o aelodau, ac yn cefnogi cyfrifiadau pensiwn manwl.
- **Manylion Cyswllt:** Cyfeiriadau, cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn cyfredol sy’n galluogi dosbarthu datganiadau buddion, cylchlythyrau a chyfathrebiadau eraill yn brydlon, gan wella ymgysylltiad aelodau a chydymffurfiaeth.
- **Cofnodion Cyflogaeth a Gwasanaeth:** Gwybodaeth am gyflogwyr, dyddiadau dechrau a gorffen cyflogaeth, a statws cyflogaeth sy’n sicrhau cronni pensiwn cywir ac olrhain cyfraniadau.
- **Data Cyfraniadau a Thâl:** Cofnodi’n gywir tâl pensiynadwy, cyfraddau cyfraniadau, a thaliadau gan gyflogwyr sy’n diogelu hawliau aelodau ac yn sicrhau lefelau buddion cywir.
- **Manylion Banc a Thaliadau:** Gwybodaeth banc gyfredol sy’n sicrhau bod taliadau pensiwn yn cael eu gwneud yn brydlon ac yn ddiogel.
- **Gwybodaeth am Ddibynyddion a Buddiolwyr:** Cofnodion cyfredol o fuddiolwyr a enwebwyd sy’n gwarantu bod buddion marwolaeth mewn gwasanaeth a goroeswyr yn cael eu talu i’r unigolion cywir.
- **Cydymffurfiaeth ac Olrhain Archwiliadau:** Logio cynhwysfawr o newidiadau data, awdurdodiadau, a mynediad sy’n cefnogi llywodraethu, cydymffurfiaeth reoleiddiol, a rheoli risg.

Mae cynnal ansawdd data ar draws yr holl feysydd hyn yn diogelu hawliau aelodau, yn cefnogi effeithlonrwydd gweithredol, ac yn atgyfnerthu ymddiriedaeth yn llywodraethu’r Gronfa.

## 5. Gofynion y Rheoleiddiwr Pensiynau

Mae’r Rheoleiddiwr Pensiynau (YRP) yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau pensiwn adrodd sgoriau ansawdd data blynyddol ar gyfer data cyffredin a data penodol i’r cynllun.

- Mae **Data Cyffredin** yn cynnwys dynodwyr craidd aelodau megis rhif Yswiriant Gwladol, enw llawn, rhywedd, dyddiad geni, cyfeiriad (gan gynnwys cod post), a statws yr aelod.

- Mae **Data Penodol i'r Cynllun** yn cwmpasu gwybodaeth benodol i'r CPLlL megis manylion cyflogwr, cyflog, hanes gwasanaeth, tâl CARE, AVCs, data GMP, a digwyddiadau crisialu buddion.

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu'r camau y bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn eu cymryd i wella ansawdd data, gan ganolbwyntio ar gyrraedd ac uwchlaw safonau sgoriau data yRP. Mae data o ansawdd uchel yn hanfodol ar gyfer cyfrifiadau buddion cywir, cyfathrebu effeithiol, a chydymffurfiaeth reoleiddiol.

## 6. Asesiad Presennol o Ansawdd Data

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnal asesiadau rheolaidd o ansawdd data i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â safonau cadw cofnodion y Rheoleiddiwr Pensiynau (yRP) ac i fonitro uniondeb data.

I gefnogi hyn, mae'r Gronfa yn defnyddio'r teclyn Insights gan Heywood—datrysiad dadansoddeg arbenigol a gynlluniwyd i asesu data Cyffredin a data Penodol i'r Cynllun. Mae'r teclyn hwn yn nodi bylchau, anghysondebau a gwallau yng nghofnodion aelodau gyda lefel uchel o gywirdeb ac yn olrhain gwelliannau dros amser.

### Categorïau Data a Aseswyd

Fel y'u diffiniwyd gan yRP, caiff y data ei gategoreiddio fel a ganlyn:

- **Data Cyffredin:** Dynodwyr allweddol megis enw, dyddiad geni, rhif Yswiriant Gwladol, rhywedd, cyfeiriad a statws.
- **Data Penodol i'r Cynllun:** Manylion penodol i'r CPLlL gan gynnwys gwybodaeth am gyflogwyr, cyflog, hanes gwasanaeth, tâl CARE, AVCs, data GMP, a digwyddiadau crisialu buddion.

### Asesiad Diweddaraf

Mae'r asesiad diweddaraf o ansawdd data, a gwblhawyd gan ddefnyddio teclyn Insights Heywood ym mis Hydref 2025, yn dangos sgoriau data cyfredol y Gronfa fel a ganlyn:

- **Sgôr Data Cyffredin:** 97.3%
- **Sgôr Data Penodol i'r Cynllun:** 96.95%

Mae'r sgoriau hyn yn cynrychioli canran y cofnodion aelodau sy'n gyflawn ac yn gywir, yn seiliedig ar y rheolau dilysu o fewn y teclyn Insights.

Mae'r canlyniadau hyn wedi llywio'r camau gweithredu wedi'u targedu a amlinellir yn Adran 7, gan ganolbwyntio ar eitemau data sydd â'r effaith fwyaf ar gyfrifiadau buddion, cyfathrebu ag aelodau, ac adrodd rheoleiddiol.

Bydd y Gronfa yn parhau i ddefnyddio teclyn Insights Heywood i fonitro cynnydd a sicrhau gwelliannau mesuradwy flwyddyn ar ôl blwyddyn.

## 7. Camau wedi'u Targedu

Yn seiliedig ar yr asesiad diweddaraf a gynhaliwyd drwy declyn Insights Heywood, mae'r Gronfa wedi blaenoriaethu sawl maes allweddol ar gyfer gwella data wedi'i dargedu. Mae'r camau hyn yn canolbwyntio ar wella cywirdeb cyfrifiadau buddion, cyfathrebu ag aelodau, a pharodrwydd ar gyfer newidiadau rheoleiddiol megis ateb McCloud a Rhaglen Dashfwrdd Pensiynau.

**Blaenoriaethau Allweddol**

- Cywiro cofnodion data coll neu annilys (e.e., rhifau Yswiriant Gwladol dros dro, cyfeiriadau anghyflawn).
- Ymateb i faterion data penodol i'r cynllun sy'n ymwneud â hanes gwasanaeth, trosglwyddiadau, data GMP, a thranšiau buddion.
- Ailgysylltu ag aelodau sydd wedi gohirio ac nad yw eu manylion cyswllt yn ddilys bellach.
- Cydweithio'n agos â chyflogwyr i wella cywirdeb a phrydlondeb cyflwyniadau data misol.
- Datblygu ac olrhain adroddiadau eithriadol sy'n amlygu gwallau cyffredin wrth fewnbynnu data yn y system.
- Cynnal sgrinio marwolaeth rheolaidd ar gyfer aelodau sydd wedi gohirio ac pensiynwyr i sicrhau bod cofnodion yn parhau'n gywir.

**Dull Gweithredu**

Mae pob mater data a nodwyd wedi cael ei asesu a'i neilltuo i gamau cywiro, amserlenni, a chyfrifoldebau penodol. Mae'r Gronfa yn blaenoriaethu materion sydd ag effaith uniongyrchol ar gyfrifiadau a thaliadau buddion aelodau.

Bydd cynnydd yn cael ei fonitro drwy adolygiadau mewnol, ymgysylltu parhaus â chyflogwyr, a dilysu data dilynol gan ddefnyddio teclyn Insights Heywood. Lle bo angen, bydd gwasanaethau olrhain proffesiynol a chefnogaeth gan drydydd partïon yn cael eu defnyddio i ddatrys achosion cymhleth.

Y meysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn 2025–26 yw:

**Data cyffredin**

| **Problem gyda'r data** | **Nifer o achosion** | **Cam Gweithredu** | **Dyddiad Cwblhau** | **Statws** |
|---|---|---|---|---|
| Aelod â Rhif Yswiriant Gwladol Dros Dro | 22 | Cysylltu ag aelodau i ofyn am Rif YG | 31-12-2025 | Ar y gweill |
| Dangosydd "Wedi Symud" ar gofnod aelod | 867 | Olrhain cyfeiriad yr aelod | 31-12-2025 | Ar y gweill |

**Nodyn:** Mae'r Gronfa yn dibynnu ar aelodau i ddiweddaru eu manylion cyswllt, sy'n gallu bod yn heriol, yn enwedig ar gyfer aelodau sydd wedi gohirio. Disgwylir i gyflwyno'r Dashfwrdd Pensiynau wella'r broses o ailgysylltu ag aelodau. Yn y cyfamser, defnyddir gwasanaethau olrhain proffesiynol i ddod o hyd i aelodau sydd â gwybodaeth gyswllt sydd wedi dyddio.

**Data Penodol i'r Cynllun**

| **Problem gyda'r data** | **Nifer o achosion** | **Cam gweithredu** | **Dyddiad Cwblhau** | **Statws** |
|---|---|---|---|---|
| **Manylion ysgariad** Dyddiad talu neu Debyd Pensiwn ar goll | 1 | Diweddaru'r manylion ysgariad | 31/03/2026 | Ar y gweill |
| **Manylion Trosglwyddo i mewn** Dyddiad derbyn yn wag neu gwerth y trosglwyddiad yn wag (dim ond ar gyfer aelodau | 107 | Diweddaru'r manylion trosglwyddo | 31/03/2026 | Ar y gweill |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| actif / ymadawyr heb benderfynu ac aelodau gohiriedig coll) | | | | |
| **Elfennau o Fuddion Gohiriedig Gwreiddiol**<br><br>Pensiwn cychwynnol ar gyfer aelod gohiriedig yn llai na £1 | 108 | Gwirio'r cofnodion i sicrhau bod symiau pensiwn yn gywir | 31/03/2026 | Ar y gweill |
| **Elfennau o gofnodion Pensiwn**<br>Pensiwn Cyfartaledd Gyrfa yn lai na £1. Dyddiad cynnydd pensiwn yn gynharach na'r dyddiad cyfrifiad Cynyddiad Pensiwn | 25 | Gwirio'r cofnodion i sicrhau bod pensiwn Cyfartaledd Gyrfa yn gywir a gwirio'r dyddiadau Cynnydd Pensiwn | 31/03/2026 | Ar y gweill |
| **Cyfanswm Buddion Gohiriedig Gwreiddiol**<br>Gwerth ar goll yn y Pensiwn Cychwynnol | 5 | Diweddaru'r sgrin Buddion Gohiriedig | 31/03/2026 | Ar y gweill |
| **Data Cyfartaledd Gyrfa**<br>Data Cyfartaledd Gyrfa ar goll am rai blynyddoedd | 22 | Gwirio'r cofnodion. Efallai fod rhai yn achosion dilys, lle mae'r aelod yn weithiwr achlysurol ac nad yw wedi cael Data Cyfartaledd Gyrfa am rai blynyddoedd. | 31/03/2026 | Ar y gweill |
| **BCE2**<br>Dyddiad crisialu yn ddyddiad annilys neu'n gynharach na'r dyddiad gadael | 2 | Diweddaru'r dyddiad Crisialu | 31/03/2026 | Ar y gweill |
| **BCE6**<br>Dyddiad crisialu yn ddyddiad annilys neu'n gynharach na'r dyddiad gadael | 661 | Diweddaru'r dyddiad Crisialu | 31/03/2026 | Ar y gweill |
| **Cyfraniadau Yswiriant Gwladol / Hanes Enillion**<br>Hanes Cyfraniadau Yswiriant Gwladol / Enillion ar goll | 6,237 | Diweddaru Cyfraniadau/ Hanes Enillion YG | 31/03/2026 | Ar y gweill |
| **GMP Cyn-1988**<br>GMP Cyn-1988 ar goll | 80 | Diweddaru'r GMP Cyn-88 | 31/03/2026 | Ar y gweill |
| **GMP Ôl-1988**<br>GMP Ôl-1988 ar goll | 393 | Diweddaru'r GMP Ôl-88 | 31/03/2026 | Ar y gweill |

## 8. Llywodraethu a Goruchwyliaeth

Mae gweithredu llwyddiannus y Cynllun Gwella Data hwn yn dibynnu ar lywodraethu clir ac atebolrwydd pendant:

- **Rheolwr Pensiynau:** Yn darparu goruchwyliaeth strategol o weithgareddau gwella data.
- **Arweinydd Tîm Systemau:** Yn arwain cyflawniad dydd-i-ddydd y camau cywiro.

- **Cyflogwyr:** Yn gyfrifol am gyflwyno data cywir ac amserol drwy ddychweliadau misol.
- Bwrdd Pensiwn Lleol a'r Pwyllgor Pensiwn: Yn darparu goruchwyliaeth annibynnol, herio, a monitro perfformiad ansawdd data.

Bydd diweddariadau cynnydd rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Pensiwn Lleol ac yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau llywodraethu blynyddol i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd.

## 9. Ymgysylltu â Chyflogwyr

Mae cyflogwyr yn bartneriaid hanfodol wrth gynnal data o ansawdd uchel, gan mai nhw yw'r prif ffynhonnell gwybodaeth am aelodau.

Mae Strategaeth Ymgysylltu â Chyflogwyr y Gronfa yn canolbwyntio ar gydweithio drwy:

- Cyflwyniadau data misol drwy blatfform ar-lein (i-Connect).
- Adrodd rheolaidd ar wallau a chardiau sgorio ansawdd data blynyddol.
- Sesiynau hyfforddi wedi'u teilwra a chymorth un-i-un.
- Monitro perfformiad data cyflogwyr ac esgyn materion parhaus lle bo angen.

Mae'r dull hwn yn sicrhau bod cyflogwyr yn cael cefnogaeth i gyflawni eu cyfrifoldebau, tra'n atgyfnerthu pwysigrwydd cofnodion aelodau cywir ac amserol.

## 10. Adolygu a Gwelliant Parhaus

Mae'r Gronfa wedi ymrwymo i adolygu a gwella prosesau ansawdd data yn barhaus:

- Bydd y Cynllun Gwella Data yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei effeithiolrwydd.
- Gwneir diweddariadau i fynd i'r afael â heriau sy'n dod i'r amlwg ac i fanteisio ar gyfleoedd newydd.
- Ceir adborth yn weithredol gan rhanddeiliaid i fireinio arferion rheoli data.

## 11. Casgliad

Drwy ddilyn y cynllun hwn, mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn anelu at wella ansawdd data yn sylweddol, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol a gwella'r profiad cyffredinol i aelodau a chyflogwyr.

## 12. Manylion Cyswllt

Am unrhyw gwestiynau neu ragor o wybodaeth am y cynllun gwella data, cysylltwch â:

- Rheolwr Cronfa Bensiwn: Meirion Jones - MeirionJones2@gwynedd.llyw.cymru
- Arweinydd Tîm Systemau: Owain Pritchard – OwainHughPritchard@gwynedd.llyw.cymru